SL(6)014 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau") i ddisodli rheoliad 16 o'r Prif Reoliadau. Mae'r rheoliad 16 newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn sy'n gyfrifol am "safle rheoledig" gymryd dull pedwar cam wedi'i ddiweddaru fel y nodir yn y rheoliad newydd, gan gynnwys:

- Cynnal asesiad risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws ar y safle (Cam 1);
- Darparu gwybodaeth i'r rheini sy'n mynd i'r safle neu sy'n gweithio yno ynghylch sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws (Cam 2);
- Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pellter o 2 fetr yn cael ei gadw rhwng unigolion ar y safle, ac eithrio fel y nodir yn wahanol (fel aelodau o'r un cartref neu, ar Lefelau Rhybudd 1 a 2, grwpiau sy'n cynnwys dim mwy na 6 o bobl heb gyfrif unrhyw unigolion o dan 11 oed neu ofalwyr) (Cam 3);
- Cymryd camau rhesymol i liniaru'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws sy'n codi pan fydd pobl yn ymgynnull yn agos at ei gilydd (Cam 4).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Atodlen 1 i'r Prif Reoliadau (sy'n nodi'r cyfyngiadau a'r gofynion sy'n cael effaith ar hyn o bryd yng Nghymru fel ardal Lefel Rhybudd 1) i:

- Ddileu'r terfyn blaenorol o 30 ar nifer y bobl y caniateir iddynt ymgynnull mewn dathliad o weinyddu priodas, ffurfio partneriaeth sifil neu seremoni briodas amgen, neu mewn dathliad o fywyd person sydd wedi marw - bydd yr uchafswm a ganiateir bellach yn cael ei bennu yn sgil asesiadau risg perthnasol a'r camau a'r mesurau rhesymol a gymerir;
- Caniatáu i blant ysgolion cynradd ymgynnull mewn llety gwyliau neu i deithio (er enghraifft, i aros dros nos) lle mae'r cynulliad wedi'i reoleiddio ac yn ymwneud â datblygiad neu lesiant plant;
- Egluro nad yw effaith y gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau yn berthnasol i berfformiad adloniant a gynhelir ar safle a ddefnyddir fel arfer at y diben hwnnw (fel lleoliadau cerddoriaeth a chomedi bach), a lle nad oes mwy na 200 o bobl yn bresennol neu lle mae'n cael ei gynnal yn yr awyr agored. . Maent hefyd yn egluro y gellir darparu cyfleusterau lletygarwch dan do mewn digwyddiad awyr agored heb newid statws y digwyddiad hwnnw.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn egluro effaith y gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau mewn perthynas ag ardaloedd yn Lefel Rhybudd 2.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur."

Nodir rhagor o wybodaeth am ystyriaethau perthnasol o ran hawliau yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
22 Mehefin 2021